Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.16 Systemau Rheoli Amgylcheddol

Cyflwyniad

Mae llywodraethau a mudiadau o amgylch y byd yn dod yn fwy amgylcheddol ymwybodol a chyfrifol yn eu gweithrediadau; felly mae 'systemau rheoli amgylcheddol' yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o bolisïau mudiadau.

Mae tystysgrifau safonau Rheoli Amgylcheddol megis y Ddraig Werdd, BS8555, ISO14001 neu’r Cynllun Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol yn arddangos ymrwymiad mudiad i ddiogelu'r amgylchedd. Mae tystysgrif amgylcheddol yn cynrychioli arferion gwaith da ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Yn ogystal â dangos cyfeillgarwch amgylcheddol, mae systemau rheoli amgylcheddol yn rhoi cyfle i gwmnïau leihau gwastraff, lleihau costau a chynyddu effeithlonrwydd. Maent hefyd yn gynyddol yn ofyniad (ymysg gofynion eraill) ym maes caffael yn y sector cyhoeddus ac yn y gadwyn gyflenwi yn y sector preifat. Felly, mae gofalu am yr amgylchedd yn rhoi budd i’r mudiad a'r blaned.

Beth yw System Rheoli Amgylcheddol?

Mae mudiadau yn cydnabod bod yr amgylchedd yn fater rheolaeth ac nid yn fater o gydymffurfio yn unig. Mae System Rheoli Amgylcheddol yn darparu fframwaith rhagweithiol ymarferol i ddeall perthynas mudiad â’r amgylchedd. Mae System Rheoli Amgylcheddol weithredol yn cynnwys set o brosesau a gweithdrefnau rheoli sy’n galluogi mudiad i weithredu mesurau atal llygredd a rhaglenni lleihau effaith amgylcheddol er mwyn dadansoddi, rheoli a lleihau effaith amgylcheddol ei weithgareddau, ei gynnyrch a’i wasanaethau, a gweithredu gyda gwell effeithlonrwydd a rheolaeth.

Tra nad yw’n ofyniad cyfreithiol i gael eich system rheoli amgylcheddol wedi’i hardystio’n annibynnol, gall fod yn syniad da iawn. Mae system rheoli amgylcheddol sydd wedi’i hardystio’n allanol yn dangos eich bod yn cymryd eich perfformiad amgylcheddol o ddifrif, a gall fod yn ffordd dda o farchnata a gwerthu’ch mudiad.

Cofiwch ddefnyddio corff ardystio sydd wedi’i gymeradwyo gan Wasanaeth Achredu’r Deyrnas Unedig (UKAS). Mae yna fudiadau sydd fel petaent yn darparu ardystio rhad, ond wrth ddefnyddio corff ardystio sydd wedi’i achredu gan UKAS byddwch yn sicrhau bod eich cwsmeriaid yn llawn adnabod yr ardystio.

Dim ond cynlluniau/cyrff sydd wedi'u hachredu gan UKAS y mae'r Llywodraeth yn eu hargymell ac ategir hyn gan y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr. Set o gwestiynau wedi'u gosod ymlaen llaw yw'r gronfa ddata newydd hon, ac mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno i'w defnyddio mewn holiaduron cyn-cymhwyso ac maent wedi'u datblygu gan Gwerth Cymru.

Gall system rheoli amgylcheddol sydd wedi'i hardystio'n allanol gynorthwyo mudiad i wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol
- Atal llygredd
- Gwella ei berfformiad amgylcheddol cyffredinol
- Sicrhau gwelliannau amgylcheddol parhaus a chyson
- Llunio amcanion a thargedau i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol
- Canfod cyfleoedd i leihau faint o adnoddau mae'n eu defnyddio ac yn eu gwastraffu
- Sicrhau mantais gystadleuol yn y broses gaffael
- Lleihau ei gostau gweithredu

Er bod llawer o fudiadau eisoes wedi gwella eu perfformiad amgylcheddol yn sylweddol, bydd system rheoli amgylcheddol yn sicrhau bod gwelliannau'n parhau drwy gynnal a monitro'r system yn barhaus. Mae hefyd yn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol a materion perthnasol eraill yn cael eu codi'n rheolaidd gydag uwch reolwyr a bod y momentwm i wneud gwelliannau yn cael ei gynnal.

Mae nifer o wahanol Safonau neu Dystysgrifau; dyma'r prif rai:

BS 8555

Safon Brydeinig yw BS 8555 sy'n darparu arweiniad er mwyn gweithredu system rheoli amgylcheddol ar sail cam-wrth-gam a gall fod yn ffordd dda o weithio naill ai tuag at ISO 14001 neu at y Cynllun Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol.

Dyma chwe cham BS 8555:

1. ymrwymiad a sefydlu'r llinell sylfaen
2. canfod gofynion cyfreithiol a gofynion eraill, a sicrhau cydymffurfiaeth â hwy
3. datblygu amcanion, targedau a rhaglenni
4. rhoi'r system rheoli amgylcheddol ar waith a'i gweithredu
5. gwirio, archwilio ac adolygu
6. cael cydnabyddiaeth o'r system rheoli amgylcheddol

Mae dau gynllun y gallwch eu dilyn er mwyn cyflawni BS8555:

- **Cynllun Seren Scheme**

  Mae Cynllun Seren, sydd wedi'i achredu gan UKAS, wedi'i ddylunio i gynnig methodoleg gadarn a chost-effeithiol i chi gofrestru'ch mudiad yn erbyn gofynion BS 8555:2003. Mae BS 8555 wedi'i rannu'n 6 cham ar wahân. Chi sy'n dewis naill ai i ddefnyddio Cynllun Seren mewn dull fesul cam i gyrraedd safonau eraill megis ISO 14001 neu'r Cynllun Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol, neu i wneud cais (fel y gwnâi llawer) i gofrestru ar gam sy'n briodol i natur a graddfa'ch busnes ac aros ar y cam hwnnw. Yn wir, mae gofynion Cam 5 a 6 yn mynd y tu hwnt i ofynion ISO 14001. Cyn belled â'ch bod yn pasio archwiliad blynyddol gallwch aros ar y cam penodol hwnnw am gyfnod penagored a defnyddio'ch system rheoli amgylcheddol i ddangos i randdeiliaid a chwsmeriaid eich ymrwymiad i reoli amgylcheddol.

- **Cynllun Acorn Scheme**

  Mae Cynllun Acorn IEMA yn cynnig cydnabyddiaeth allanol i fudiadau sy'n gwerthuso ac yn gwella eu perfformiad amgylcheddol drwy weithredu system rheoli amgylcheddol fesul cam yn unol â BS8555. Mae Acorn yn cynnig nodwedd unigryw lle gall mudiadau adrodd yn ôl ar ddangosyddion perfformiad amgylcheddol yn y broses gaffael. Mae hyn yn mynd law yn llaw ag agweddau 'un ateb sy'n addas i bawb' ar ISO14001 a'r Cynllun Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol, ac yn rhoi cyfle i osod gofynion amgylcheddol mewn cytundebau cyflenwyr a monitro perfformiad gweithredol / cynnyrch – cryfder a gydnabyddir gan y Llywodraeth mewn datganiad diweddar ar ei safle ar systemau rheoli amgylcheddol a gyhoeddwyd gan DEFRA.

ISO 14001

ISO 14001 yw'r safon gydnabyddedig ryngwladol ar gyfer rheolaeth amgylcheddol mewn busnesau. Mae'n rhagnodi rheolaethau ar gyfer y gweithgareddau hynny sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio adnoddau naturiol, trafod a thrin gwastraff a defnyddio ynni.

Mae gweithredu system rheoli amgylcheddol yn ffordd systematig o ddarganfod a rheoli effeithiau eich mudiad ar yr amgylchedd. Gellir arbed costau drwy wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Gellir cyflawni'r rhain drwy ddarganfod ffyrdd o leihau a gwaredu gwastraff yn fwy effeithiol, a dysgu sut i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon. Mae hefyd yn gwirio eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol.

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Groundwork Cymru sy'n gweithredu'r Ddraig Werdd ac mae'n ffordd hylaw o gyflawni System Rheoli Amgylcheddol gydnabyddedig sydd wedi'i harchwilio'n annibynnol.

Mae'r Ddraig Werdd wedi'i rhannu'n 5 lefel. Gall mudiadau wneud cais ar y lefel sy'n gweddu i'w maint a'u heffeithiau amgylcheddol. Ar bob lefel rydych yn cyflawni system rheoli amgylcheddol wedi'i chydnabod yn llawn, ond mae pob lefel yn mynd â chi at safon uwch. Golyga hyn fod y Ddraig Werdd yn hyblyg iawn; gall mudiadau mawr weithio tuag at Lefel 5 dros sawl blwyddyn, tra gall mudiadau llai ymgeisio ar y lefelau is a chael system rheoli amgylcheddol wedi'i hardystio sy'n briodol i'w maint. Er nad yw wedi'i hachredu gan UKAS eto, gallwch ddefnyddio'r Ddraig Werdd fel cam tuag at gyrraedd ISO14001 a/neu'r Cynllun Rheoli ac Archwilio Amgylcheddol.

Gwybodaeth bellach

Busnes Cymru – Arweiniad Amgylcheddol

Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu Busnes Cymru, a gall ddarparu cymorth ac arweiniad amgylcheddol ar ddeddfwriaeth yn rhad ac am ddim i fudiadau yng Nghymru.

http://business.wales.gov.uk/running-business/environment-efficiency-waste-pollution-prevention

Asiantaeth yr Amgylchedd – arweiniad amgylcheddol i'ch busnes
Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu arweiniad amgylcheddol yn rhad ac am ddim i fusnesau bach a chanolig yn y DU. Byddant yn eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd. Gallant hyd yn oed arbed arian i chi drwy ddangos ffyrdd o ddefnyddio'ch adnoddau yn fwy effeithlon.

www.environment-agency.gov.uk/business/default.aspx

Cynllun Seren scheme
www.serenscheme.com

Cynllun Acorn Scheme
www.iema.net/acorn

ISO 14001
www.iso.org

Y Ddraig Werdd
Ffôn: 01443 844866
www.greendragonems.com/

Rhaglen Byw Un Blaned (One Planet Living®)
www.oneplanetliving.org/index.html

Amgylchedd Cymru
Ffôn: 029 2043 1727
info@environment-wales.org
www.environment-wales.org

Canolfan Ynni Cynaliadwy
www.cse.org.uk/pages/information/community-groups

Green Consumer Guide
www.greenconsumerguide.com

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:21/01/2013

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk